

DAVIES, EDWARD (1796 - 1857), gweinidog ac athro Annibynnol

Enw: Edward Davies
Dyddiad geni: 1796
Dyddiad marw: 1857
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog ac athro Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 13 Mawrth 1796 yn Ashton (Sir Amwythig), ond magwyd yn Wrecsam a bu mewn ysgol ramadeg yng Nghaer; cafodd ffafr yng ngolwg [William Williams](#) o'r Wern (1781 - 1840), a'i hanogodd i bregethu. Aeth i academi Llanfyllin, ar y pryd dan [George Lewis](#) (1763 - 1822), yn 1817; yn 1818 penodwyd ef yn ddisgybl-athro, ac yn 1819 yn athro'r clasuron; daeth merch [George Lewis](#) yn wraig iddo. Yn 1821 symudwyd yr academi i'r Drenewydd, lle y bu [Lewis](#) farw yn 1822. Ystyrir Davies yn rhy ifanc i fod yn brifathro, ond penodwyd ef yn athro diwinyddol, gyda [Samuel Bowen](#) yn gydradd. Ymadawodd [Bowen](#) yn 1830, a daliodd Davies ymlaen, ar ei ben ei hun ac yn wyneb anawsterau dirfawr, hyd 1839, pan symudwyd yr academi, dan yr enw newydd 'Y Coleg Annibynnol,' i Aberhonddu; eto i gyd ni chodwyd mohono'n brifathro. Bu farw 25 Chwefror 1857. Yr oedd yn geidwadwr rhonc, nid yn unig mewn diwinyddiaeth ond mewn gwleidyddiaeth hefyd. Disgrifir ef fel pregethwr symol, ond fel athro rhagorol.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, i 389-91

G. D. Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (1939), 1939, penodau viii, ix

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732932](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

